Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa

9 Chwefror 2016

Stuart Law

Crynodeb Cyfarwyddwr y Safle Hydref 2016 – Ionawr 2017

Gweithredu ar safle Wylfa

Er gwaethaf blwyddyn heriol ers y gwaith diffodd, cafwyd y perfformiad gorau eto o ran gwagio tanwydd yn 2016. Mae 25 y cant o'r tanwydd ar y safle wedi'i wagio erbyn hyn ac mae'r gwaith yn ei anterth; mae trosglwyddyddion 1 a 2 yn gwbl weithredol ac mae'r gwaith o wagio'r tanwydd yn cael ei wneud drwy gelloedd storio 1 a 3.

Mae'r newyddion da hwn yn dilyn blwyddyn rwystredig a heriol ar gyfer y safle, gan gynnwys tri achos lle methodd cyfarpar y peil cap, a threuliwyd miloedd o oriau gweithwyr yn ceisio deall a datrys hyn.

Drwy gydol yr heriau hyn, mae'r tîm ymroddedig a phenderfynol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr orsaf gwagio tanwydd yn weithredol unwaith eto cyn gynted â phosib. Mae'r timau Peirianneg a Chynnal a Chadw, a oedd â sgiliau lefel uchel cyn ymgymryd â'r tasgau hyn, bellach yn cael eu hystyried fel yr unigolion mwyaf gwybodus o ran technoleg sydd erioed wedi bod ar y safle.

Mae 74 tunnell arall o ddeunyddiau peryglus wedi'u tynnu o'r safle ers dechrau trydydd cam y prosiect Glanhau ar ôl y Cyfnod Gweithredol ym mis Hydref:
Hylifau a solidau Sylffad Fferrus – Tua 37 Tunnell
Gwaith Costig a chael gwared ag Asid mewn swmp – Tua 30 Tunnell
Boron Ocsid a Boron Carbid – Tua 7 Tunnell

Mae pryderon bod asbestos yn dirywio ar raddfa gyflymach na'r disgwyl yn neuadd y tyrbinau. Mae gwaith monitro asbestos dyddiol yn cael ei gynnal; does dim lefelau o asbestos yn achosi pryderon hyd yn hyn ond mae rhagor o ragofalon yn cael eu cymryd er mwyn diogelu personél drwy gyfyngu mynediad at neuadd y tyrbinau.

Yn dilyn arolwg o oleuadau a ffiwsys pŵer bach, gwelwyd bod 4 ohonynt â chyfradd uwch na chapasiti'r cebl ac efallai na fyddent wedi amddiffyn y cebl pe bai nam arnynt. Cafodd y ffiwsys hyn eu hamnewid am rai cywir ar unwaith. Cynhaliwyd arolwg o ffiwsiau cysylltiedig â Diogelwch Niwclear hefyd, ac ni chanfuwyd unrhyw broblemau mawr. Yn sgil hyn, mae archwiliadau ehangach yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y safle yn cynnal a chadw ei holl offer trydanol yn unol â'r Rheoliadau Trydan yn y Gwaith.

Prosiect Llinell Gollwng Elifion Gweithredol

Cwblhawyd prosiect y Llinell Gollwng Elifion Gweithredol bum mis o flaen amser a £1m o dan y gost a amcangyfrifwyd. Cafodd 70% o'r bibell 93m o hyd, nad oedd ei hangen mwyach, ei hailgylchu.

Mae'r system dŵr oeri wedi cael ei diffodd, a fydd yn arbed £2m o gostau trydan bob blwyddyn, ac yn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Llun: Tîm y prosiect o flaen Siambr Falfiau'r Llinell Gollwng Elifion Gweithredol

Gweithredu ar safle Maentwrog

Nid oedd Uned 1 ym Maentwrog ar gael rhwng 28/11/16 a 14/1/17 o ganlyniad i nam ar dorrwr cylched 33Kv. Cafodd yr uned ei thrwsio ac mae'n weithredol unwaith eto.

Mae gwaith cynhyrchu trydan wedi cael ei raglennu yn unol â lefelau'r gronfa ddŵr a'r farchnad o ganlyniad i'r glawiad anarferol o isel ers mis Medi.

Yr Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd

Ystadegau diogelwch 18 Ionawr 2016
Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR): 0.20
Cyfradd cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.60
Nifer y diwrnodau ers damwain colli amser: 347
Does dim anafiadau cymorth cyntaf wedi bod ar y safle ers mis Mawrth 2016.

Cynhaliwyd adolygiad ar yr Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd o dan arweiniad Kenny Douglas, Rheolwr Gyfarwyddwr Magnox, ym mis Hydref. Bu'r adolygiad yn llwyddiannus iawn. Roedd yn cynnwys dau ddiwrnod o archwiliadau diogelwch, ac roedd canlyniadau'r rheini yn canmol nifer o agweddau ar y swyddogaeth hanfodol hon.

Bu Debbie Fisher, Arolygydd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear sy'n arbenigo mewn gallu dynol a threfniadol, mewn grŵp ffocws ar ddiwylliant diogelwch ym mis Tachwedd yn rhoi hyfforddiant i Gynrychiolwyr Diogelwch Wylfa ar dechnegau hwyluso.

Mae Rhifyn 5 Cynllun Rheoli Amgylcheddol Wylfa wedi cael ei gyhoeddi ac mae ar gael yn ddwyieithog yn https://magnoxsites.com/publications ac mae modd gweld copi caled yn llyfrgelloedd Ynys Môn.

Ymweliadau/dyddiadau allweddol

Bu dirprwyaeth o ymwelwyr o Unol Daleithiau America ar daith o amgylch y safle ar 14 Rhagfyr ac fe wnaethant ddysgu am raglen datgomisiynu safle Trawsfynydd.

Ar 20 Rhagfyr, treuliodd BBC Cymru ddiwrnod yn ffilmio ar y safle ar gyfer eitem newyddion a gafodd ei darlledu ar y teledu, ar-lein ac ar y radio ar 20 Rhagfyr – flwyddyn ar ôl diffodd y safle.

Gweithlu

Ar 17 Ionawr roedd 307 o weithwyr a thri Gweithiwr a Gyflenwyd gan Asiantaeth ar y safle (heb gynnwys gweithwyr Diogelwch na staff Swyddfa Cymorth Magnox sydd wedi'u lleoli yn Wylfa).

Wylfa yn y gymuned

Roeddem yn falch o gyflwyno portacabin nad oeddem yn ei ddefnyddio mwyach yn rhodd i Gylch Meithrin Cemaes, a chafodd ei agor yn ffurfiol ym mis Tachwedd ar ôl misoedd o waith caled i'w drawsnewid yn adnodd addysg o'r radd flaenaf.

Mae 30 o ddesgiau dros ben wedi cael eu cyflwyno'n rhodd i Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch.

Cynhaliwyd digwyddiad gwerthu teisennau ar 4 Hydref, lle codwyd £540 ar gyfer Cymorth Canser Macmillan, a chododd y Raffl Nadolig blynyddol £636, a gafodd ei rannu'n gyfartal rhwng Ambiwlans Awyr Cymru, Cymdeithas Alzheimer's a Gwasanaethau Pobl Ifanc Gogledd Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth a'r newyddion diweddaraf o Wylfa, ewch i:

https://magnoxsites.com
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites